

Sul y Genhadaeth

Darllenid 1: Ioan 21: 15-17
Darllenid 2: Mathew 28: 16-20

Ein Tad, daethom at ein gilydd heddiw ar y diwrnod arbennig hwn i ddathlu'r genhadaeth.

Diolch fod gyda ni ddydd wedi ei neilltuo i gofio am y gwaith cenhadol, ac eto sylweddolwn nad oes modd cyfyngu'n meddwl amdano i'r un diwrnod. Arwain ni yn ein haddoliad heddiw i weld o'r newydd ehangder a phwysigrwydd y genhadaeth. Y neges y mae'n rhaid ei chyhoeddi yn gyson a'r gwaith nad yw byth yn darfod.

Gobeithio y bydd ein cofio ni heddiw yn ein helpu ni i weld pob dydd yn gyfle i genhadu. Diolchwn am y cenhadon a anfonaist i'n byd dros hanes dynoliaeth. Y proffwydi a'r offeiriaid, yr arweinwyr a'r apostolion, a'r gwŷr a'r gwragedd cyffredin, da a duwiol. Y rhai a ddaeth â gair a gweledigaeth, defod a gweithred yn gyfryngau dy neges a'th ewyllys. Gyda chywilydd yr ydym yn cydnabod na chafwyd y derbyniad yr oeddet ti yn ei haeddu. Bu anwybyddu a gwrthwynebu'r genhadaeth, a gwrthod ac erlid y cenhadon.

Eto, diolchwn am y rhai hynny a wrandawodd ar y neges ac a'i cymhwysodd i'w bywyd, ac a ddaeth yn eu tro yn gyfryngau newydd i'r genhadaeth. Trwy eu hymroddiad hwy a'r rhai a'u dilynodd cawsom ninnau glywed amdanat a rhannu yn y bywyd newydd yn Iesu Grist.

Arglwydd, trwy ein cofio, cynorthwya ni i ymdrechu i fod yn deilwng o weinidogaeth y gorffennol, ac i wneud ein rhan i barhau'r gwaith cenhadol i'r dyfodol.

Cofiwn heddiw, gyda gwerthfawrogiad a diolch, am y cenhadon a aeth o'r nysoedd hyn i gludo'r efengyl i bedwar ban byd.

Diolchwn am eu hymrwymiad i'th wasanaeth. Diolchwn am eu dewrder a'u haberth. Diolchwn am eu cariad a'u gwasanaeth i'r bobl. Diolch fod cymaint ohonynt wedi'u huniaethu eu hunain â gwlad ac iaith a thraddodiad a diwylliant, gan gymhwyso'r efengyl ar gyfer amgylchiadau ac anghenion arbennig. Diolch am waith pwysig yn ei amser a'i gyfnod.

Ond wrth werthfawrogi'r gorffennol, helpa ni i gofio ein bod bellach yn rhan o bartneriaeth fyd-eang, yn wledydd a chenhedloedd a phobloedd gyda'n gilydd.

Bydded inni ddathlu heddiw ein haelodaeth o'r teulu cenhadol, y cyfle i gael ein dysgu ac i dderbyn gan eraill, ac i gydweithio er llwyddiant y genhadaeth, gartref yn ogystal ag ym mhellafoedd daear.

Arglwydd, fe ddest ti â'r genhadaeth atom mewn modd arbennig iawn yn Iesu Grist, gan bregethu'r newydd da i dlodion a chyhoeddi rhyddhad i garcharorion, adferiad golwg i ddeillion a pheri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd. Helpa dy Eglwys heddiw, yn ei chenhadaeth hi, i gofio hynny. Wrth ymwneud â'r byd yn ei anobaith a'i anghyfiawnder, a phobl mewn dioddefaint a phoen, helpa ni i rannu'r iachawdwriaeth gyflawn sydd yn Iesu Grist, y newydd da sy'n diwallu pob angen ac yn cyflenwi pob diffyg.

Cydnabyddwn, Arglwydd, mai dy enw di yn unig sy'n haeddu ei gyhoeddi, a'th gariad di yn unig sy'n teilyngu sôn amdano. I ti yr ydym yn cyflwyno'r gwaith, er clod a gogoniant i'th enw mawr. Amen.

Robin Samuel